CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CHWEFROR 15, 2022

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar Zoom
Nos Fawrth, Chwefror 15, 2022 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Karen G. Goswell (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams, Rhun Prys Jones, Peredur Jenkins, Emlyn Roberts. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 18, 2022

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion , Ionawr 18, 2022

Eitem 7.b. Gweler eitem 7.a. isod.

Eitem 5. Nid oes ystadegau llawn ar gael ar hyn o bryd.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (21/1/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Y Frenhines yn cynnal tair Garddwest ym Mhalas Buckingham ar ddydd Mercher 11eg Mai, dydd Mercher 18fed Mai a dydd Mercher 25ain Mai. Bydd angen y cynghorydd llwyddiannus fod ar gael ar gyfer y tri dyddiad. Mae'r gwahoddiad i Arddwestau Palas Buckingham i Gynghorwyr a aeth y filltir ychwanegol ar gyfer eu cymunedau yn ystod y pandemig. Mae angen yr enw erbyn dydd Llun 7fed Chwefror.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (21/1/2022) oddi wrth Cyngor Cymuned Llandygai yn ymwneud a diffyg ymateb a chyfathrebu gan Cyngor Gwynedd i faterion sy'n cael eu codi gan gynghorau cymuned. Amgáu mae llythyr ateb derbyniwyd gan Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'r Cyngor am ymchwilio i wella eu trefniadau ymateb i ymoliadau. I wneud hyn yn effeithiol maent angen esiamplau gan gynghorau cymuned i ddangos lle'r oedd ddiffyg ymateb.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (28/1/2022) oddi Un Llais Cymru yn cynwys 'videos' i godi ymwybyddiaeth rôl cynghorwyr cymuned i gymdeithas.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (31/1/2022) oddi wrth Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd gyda rhestr o ddarparwyr ar gyfer cynnal sesiynau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (2/2/2022) oddi wrth Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â gwaith ymgysylltu Cam 1 – Ardal Ni 2035. Mae'n cynwys adroddiad cryno 'Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Dolgellau'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (7/2/2022) oddi wrth Dash UK yn gwerthu mygiau yn dathlu Jwbili Platinwm y Frenhines.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Lythyr (9/2/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o 'Cyngor newydd am y Cod Cefn Gwlad i reolwyr tir'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (15/2/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafnidiaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn a ffordd mynediad i Bryn Chwat a Cefn-Creuan-Uchaf, Rhydymain. Bydd y ffordd ar gau ar 3/3/2022 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ff. Llythyr (15/2/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafnidiaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Parc Carafanau Llwyn yr Helm, Brithdir. Bydd y ffordd ar gau ar 24/2/2022 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Eitem 7.b. o gofnodion Ionawr 18, 2022. Cais cynllunio NP5/54/8C. Codi adeilad i storio peirianau a gwaith cysylltiol. Gellfachreth, Llanfachreth.

Derbyniwyd fwy o wybodaeth ar y cais oddi wrth y Parc (2/2.2022). Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau

Derbyniodd yr aelodau lythyr gan Karen Goswell (Cadeirydd) yn rhoi gwybod roedd un neu ddau o'r aelodau yn anfodlon gyda sylwadau'r Parc ac inni ei drafod ymhellach yn ein cyfarfod.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc ein gwrthwynebiad i'r cais am y rhesymau:

1. Mae peth dryswch yn y cais: ai adeilad domestig sydd dan sylw neu adeilad amaethyddol? Mae barn mai cais domestig ydi hwn ond yn y dull adeilad amaethyddol (corrugated). Mae'n dweud bod yr adeilad ar gyfer "machinery used for agricultural contracting".

2. Yn y cais cynllunio mae disgrifiad am ddefnydd yr adeilad fel "agricultural contracting" yn gwrthddweud gyda "To clarify this shed is for domestic use only, the applicant has a few machines and vehicles and wishes to be able to have a shed to maintain them, all of this would fall under domestic use".

3. Tydi'r tir sydd o amgylch Gellfachreth heb gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau amaethyddol ers 25 mlynedd a mwy a does dim tystiolaeth ar hyn o bryd bod unrhyw fusnes contractio amaethyddol yn cael ei redeg yno.

4. Does dim rheswm yn cael ei roi pam bod angen adeilad arall ar gyfer "domestic activities" pan mae garej go fawr ar y safle eisoes.

5. Am fod y cais yn ddatblygiad tu hwnt i'r cyffredin, gan ystyried mae'r cais am ddefnydd domestig yn unig yw hwn, mae posibilrwydd ni fydd yn ddefnyddiol yn yr un modd os bydd yr eiddo yn newid dwylo yn y dyfodol. Os bydd perchennog newydd, mae posibilrwydd cael cais arall i newid defnydd yr adeilad, ac anodd iawn bydd gwrthod y cais adeg hynny.

6. O ran gweledegd y safle, mae'n wir dweud ei fod yn fach o bellter llwybrau Moel Offrwm, ond gweladwy ydyw serch hynny, mwy felly o lefydd ymhellach i fyny'r Foel. Yn llefydd agosach, fel ar hyd y ffordd gyhoeddus ychydig cyn y Garreg Fawr, mae sawl llecyn ble mae rhywun yn gweld adeiladau Gellfachreth yn agosach ac yn glir, yn enwedig gyda'r nos trwy hanner y flwyddyn pan fydd goleuadau llachar ymlaen a dim dail ar y coed.

a. Llythyr (21/1/2022) oddi wrth Partneriaethau PCE / Cynorthwyol Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn atgoffa am weithdai ar sut mae cael Twristiaeth Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri. Bydd gweithdy dalgylch Dolgellau ar Ionawr 27, 2022 am 2.30yp ac ar Zoom. Mae angen cofrestru erbyn 24/1/22.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (25/1/2022) yn rhoi gwybod mae'r Parc a Cyngor Gwynedd wedi bod yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy newydd ar gyfer yr ardal.

Amgáu mae dogfen yn amlinellu'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma. Mae'r ddogfen yn rhoi: Beth sy'n cael ei drafod, Beth ydi economi ymweld cynaliadwy, Pam ein bod angen gweithredu, Beth ydi'r ystadegau twristiaeth yn yr ardal, Beth yw'r prif faterion sy'n codi yn yr ardal, Beth yw ymateb Cyngor Gwynedd a'r Parc, Beth yw'r farn hyd yma, Beth ydi'r camau nesaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (28/1/2022) yn rhoi gwybod mae'r Parc, gyda RSPB Cymru a Choed Cadw, wedi bod yn arwain y Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru i warchod a gwella statws cadwraethol coedlannau derw. Mae'r prosiect yn ceisio cael gwared â Rhododendron sydd wedi ymledu, cael gwared â choed annymunol e.e. coed conwydd, a chyd weithio gyda sefydliadau perthnasol e.e. tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol, gweithwyr proffesiynol. Os mae angen fwy o wybodaeth am y prosiect mae angen cysylltu gyda'r Parc.

Anfonwyd y llythyr, a map yn dangos ardaloedd y prosiect, ymlaen i'r aelodau.

ch. Cais cynllunio NP5/54/89A. Adeiladu decin wedi'i godi. 40 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (8/2/2022).

8. Materion Ariannol

a. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Dawns i Bawb, Hosbisiau Plant House (Tŷ Gobaith), Marie Curie, Ambiwlans Awyr Cymru.

Llythyr (27/11/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2021-22. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 o dan adran 137(1) ac (3) £8.41, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.41 x 603 = £5,071.23.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Ambiwlans Awyr Cymru: £200
RABI Meirionnydd = £100

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Eisteddfod Llanfachreth: £350
Sioe Arddwriaethol ac Amaethyddol Rhydymain a'r Cylch = £200
Urdd Gobaith Cymru = £150

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £350

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
Neuadd Brithdir: £700
Neuadd Rhydygorlan: £700
Neuadd Llanfachreth: £700
Neuadd Rhydymain: £700

Cyfanswm = £4,150.

b. Bil (31/1/2022) am £206.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am gynnal a chadw ein gwefan am flwyddyn arall.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/1/2022: £1,141.42
Balans yn y banc ar 29/1/2022: £11,538.20. (29/1/2021: £7,441.09).

9. Archwilio

a. Llythyr (27/1/2022) oddi wrth Archwilio Cymru ynglŷn â Chwblhau Archwiliad am y Flwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2021. Amgáu gyda'r llythyr mae Hysbysiad am Gwblhau Archwiliad (angen ei gwblhau, a'i arddangos ar ein hysbysfyrddau ac ar ein gwefan), a Datganiadau Cyfrifyddu 2020-21.

Penderfynwyd codi £5 am gopi o'r Ffurflen Flynyddol fel roedd angen ar Hysbysiad am Gwblhau Archwiliad.

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol:

Barn archwilio – Amodol
Ac eithrio'r materion a nodir isod ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y Ffurflen Flynyddol hon:
• heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol;
• yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol;
• yn anghyson â threfniadau llywodraethu'r Cyngor/Pwyllgor; ac
• nad oes gan y Cyngor/Pwyllgor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Sail i'r amod
• Caiff costau staff eu tanddatgan gan £473 ac mae taliadau eraill yn cael eu gorbwysleisio o £473 oherwydd camddosbarthiad o gyflog y Clerc. Nid oes unrhyw effaith ar y balansau cau.

Materion eraill sy'n codi ac argymhellion
Tynnaf sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r corff fynd i'r afael â hwy.
• Rydym yn argymell y dylid adrodd ar gyflog y Clerc yn y datganiad cyfrifyddu blynyddol fel costau staff.
• Cymeradwyodd y Cyngor ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol cyn derbyn yr adroddiad Archwilio Mewnol. Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol yn elfen bwysig o'r sicrwydd y mae'r Cyngor yn ei gael dros ei system rheolaeth fewnol y mae ei adroddiadau arno yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, nid oedd gan y Cyngor y dystiolaeth i gefnogi ei haeriadau. Rydym yn argymell bod y Cyngor, ar gyfer 2021-22 ymlaen, yn derbyn ac yn ystyried yr adroddiad Archwilio Mewnol cyn iddo gymeradwyo ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Nodwyd yn y cyfarfod bod y Cyngor yn fodlon gyda gwasanaeth mae'r Clerc yn ei roi.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Mae Peredur wedi bod mewn cysylltiad â Guthrie Jones a Jones am y diweddaraf ynglŷn â cofrestru'r tir Neuadd Llanfachreth.

b. Bydd dau dîm yn cael eu sefydlu ym Meirionnydd ym mis Mawrth i gadw ein trefi a chymunedau yn daclus.

11. Materion yr Aelodau

a. Anfonwyd llythyr (30/1/2022) i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd bod y ffordd ochr draw i Rhiwfelen, Abergeirw yn rhoi ac iddynt roi sylw i'r mater. Mae hwn yn hen gwyn ac erbyn hyn mae lled y ffordd wedi cyfyngu i rhwng 5 a 6 troedfedd.

Cafodd Peredur wybod gan Swyddog yn Adran Priffyrdd bydd Arolygwr yn archwilio'r safle ar 1/2/2022.

Penderfynwyd i Peredur gwneud ymoliadau am y gwaith sydd angen ei wneud.

Llofnod: Dyddiad: